## Cyflwyniad

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, a sicrhau bydd cynifer o bobl â phosibl yn gallu cymryd rhan yn eu hoff gelfyddydau – yn aelod o gynulleidfa, yn artist neu'n gyfranogwr.

Nid bwriad y daflen yma yw cynnig arweiniad yn uniongyrchol ar sut i wneud eich gwaith yn fwy hygyrch. Ei bwriad yw rhoi gwybodaeth ichi am beth i'w ystyried wrth gynllunio a chyflwyno eich gwaith a sut i gael cyngor manwl gan sefydliadau arbenigol, a chithau'n ymgeisydd i raglen ariannu'r Loteri Genedlaethol.

Dechreuwch feddwl am sut i wneud eich gwaith yn fwy hygyrch yn gynnar yn eich cynllunio. Cofiwch y gallwch chi gynnwys unrhyw gostau cysylltiedig yng nghyllideb eich prosiect.

## Beth yw ystyr gwaith hygyrch?

Nid hygyrchedd corfforol i adeiladau sydd gennym dan sylw, er mor bwysig yw'r agwedd yna ar eich gwaith. Ond rydym ni'n disgwyl, cyn ichi ymgeisio, eich bod wedi ystyried sicrhau bod eich gweithgarwch yn digwydd mewn lle hygyrch i gynulleidfaoedd anabl.

Rydym ni am ichi fynd â phethau ymhellach i sicrhau **cyfle cyfartal**. Rydym ni am ichi ystyried eich cynulleidfa, eich artistiaid a/neu'ch cyfranogwyr a gofyn sut y gallwch chi wella eich gwaith. Er enghraifft, gallech chi ystyried:

- perfformiadau wedi'u disgrifio'n glywedol
- Arwyddeg Prydain (BSL) i ddehongli perfformiadau
- perfformiadau gyda chapsiynau/uwchdeitlau
- arddangosfeydd cyffyrddol/trafod uniongyrchol
- cynlluniau llawr mewn Braille a/neu deithiau sy'n cael eu disgrifio ar lafar
- arwyddion cyffyrddol/paneli dehongli
- teithiau cyffwrdd
- sgyrsiau cyn ac ar ôl y sioe

- ystafell dawel i gefnogi iechyd meddwl pobl

Efallai fod gennych gynulleidfaoedd neu gyfranogwyr eraill yr hoffech chi ymgysylltu â nhw sydd â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid ystyried yn ofalus sut i allu croesawu'r cynulleidfaoedd hyn a sicrhau bod eich perfformiad yn hygyrch iddynt. Mae anghenion yn amrywio o grŵp i grŵp, ond beth am ystyried y canlynol?

- amseroedd perfformio (y dydd neu gyda'r nos)
- amserlenni cludiant cyhoeddus a sicrhau eu bod yn cyfateb i amseroedd y sioe/digwyddiad
- y pwnc
- darparu lluniaeth

Nid ydym ni'n gallu dweud yn union beth sydd angen ichi ei wneud. Mae eich cynulleidfaoedd a'ch cyfranogwyr (posibl neu wirioneddol) yn benodol ichi. Rydym ni am ichi ddod i adnabod eich cynulleidfa a'ch cyfranogwyr, ac ystyried sut i wneud eich gwaith yn hygyrch, croesawgar a phleserus. Rydym ni am ichi fagu perthynas ag unrhyw grwpiau rydych chi am eu cyrraedd yn benodol ac ystyried gweithgareddau sy'n amlapio eich prosiect.

Mae cyhoeddusrwydd a deunydd hyrwyddo'n ffordd bwysig o roi gwybod i bobl am eich prosiect. Rhaid ichi ystyried materion dylunio, pa destun a ffontiau i ddefnyddio, pa liwiau mewn pa gyfuniadau, pa ffurfiau eraill sy'n bosibl fel testun mawr, Braille, Hawdd ei Ddarllen, ieithoedd heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg. Sut olwg sydd ar eich gwefan? Ydy'n hawdd mynd o'i chwmpas a'i darllen neu oes llawer o dermau technegol, anodd? Beth am ystyried creu taflenni a rhaglenni sain neu daflenni fideo (gydag isdeitlau/Arwyddeg). Cofiwch gynnwys gwybodaeth am hygyrchedd yn eich deunyddiau cyhoeddusrwydd.

Mae llawer o bethau i'w hystyried, ac nid ydym ni'n disgwyl ichi newid popeth ar unwaith. Ond byddwn ni'n disgwyl ichi ystyried eich cynulleidfaoedd a'ch cyfranogwyr, a sut i allu ymgysylltu â nhw. Rydym ni am ichi ddangos yn eich cais eich bod wedi ystyried hygyrchedd a gwneud newidiadau go iawn i ddangos eich ymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant.

## Cysylltiadau defnyddiol ac awgrymiadau darllen

Y lle gorau i ddechrau yw gyda sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl. Er enghraifft, ar wefan Gweithredu ar Golli Clyw Cymru mae gwybodaeth am wahanol ffyrdd o

gyfathrebu. Mae gan Gelfyddydau Anabledd Cymru brofiad a gwybodaeth eang am gynnwys pobl anabl yn y celfyddydau yn aelodau o'r gynulleidfa a pherfformwyr/artistiaid. Mae Diverse Cymru yn gweithio gyda phobl ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig ac yn gallu cynnig cyngor ac arweiniad. Nid yw'r rhestr yma'n gyflawn ond mae'n fan cychwyn.

- Celfyddydau Anabledd Cymru, https://www.disabilityartscymru.co.uk/cy/
- Anabledd Cymru, www.disabilitywales.org
- Diverse Cymru, www.diversecymru.org.uk
- RNIB Cymru, https://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1
- Gweithredu ar Golli Clyw Cymru, www.actiononhearingloss.org.uk/about-us/our-work-across-the-uk/wales/
- SNAP Cymru, http://www.snapcymru.org/?lang=cy
- Anabledd Dysgu Cymru, www.LDW.org.uk/
- Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, https://www.ldw.org.uk/cy/
- Mind Cymru, www.mind.org.uk/about-us/
- Prosiect Cyngor am Anabledd, www.dapwales.org.uk/
- Cyngor Hil Cymru, www.racecouncilcymru.org.uk/
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru, welshrefugeecouncil.org.uk/
- Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, www.romaniarts.co.uk/
- Age Cymru, www.ageuk.org.uk/Cymru/
- Stonewall Cymru, https://www.stonewallcymru.org.uk/cy

Mae ar ein gwefan ganllawiau defnyddiol, fel ein Canllaw Cydraddoldebau, Lleoedd Cyfartal, a phecyn cymorth am Gynulleidfaoedd Byddar. Ewch i'n gwefan: https://arts.wales/cy/amdanom-ni/strategy/cydraddoldeb